| **Teitl:** Diwygio system cyfrifoldeb cynhyrchwyr deunydd pacio y DU | **Asesiad Effaith (AE)** |
|---|---|
| **Rhif AE:** | **Dyddiad:** 17/03/2022 |
| **Rhif Cyfeirnod RPC:** | **Cam:** Cam Terfynol |
| **Adran neu asiantaeth arweiniol:** Defra | **Ffynhonnell yr ymyrraeth:** Domestig |
| **Adrannau neu asiantaethau eraill:** | **Math o fesur:** Is-ddeddfwriaeth |
| | **Cyswllt ar gyfer ymholiadau:** packaging@defra.gov.uk |

## Crynodeb: Ymyrraeth ac Opsiynau

**Barn RPC:** Awaiting Scrutiny Disgwyl Craffu

| **Cost yr Opsiwn a Ffefrir (neu sydd fwyaf tebygol)** (ym mhrisiau 2019) | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Net y Gwerth Cymdeithasol Presennol** | **Gwerth Presennol Net y Busnes** | **Cost net cost i fusnes y flwyddyn** | **Statws Targed Effaith Busnes** Qualifying provision |
| £ 1.3 miliwn | -£ 9949.8 miliwn | £ 1206.8 miliwn | Darpariaeth gymwys |

**Beth yw'r broblem sy'n cael ei hystyried? Pam mae ymyrraeth y llywodraeth yn angenrheidiol?**

Mae system cyfrifoldeb cynhyrchydd ar gyfer deunydd pacio wedi bod ar waith ers 1997. Mae wedi helpu busnesau ledled y DU i fodloni eu rhwymedigaethau ailgylchu gwastraff pacio, y DU i gyrraedd ei thargedau ailgylchu gwastraff pacio ac wedi cadw costau cydymffurfiad busnesau yn isel o'i gymharu ag Aelod-wladwriaethau'r UE. Fodd bynnag, bwriedir iddi alluogi cynhyrchwyr i fodloni (nid rhagori ar) dargedau ailgylchu. Nid yw'n cymell cynhyrchwyr i ddylunio deunydd pacio i fod yn haws ei ailgylchu neu alluogi iddo gael ei ailddefnyddio / ail-lenwi. Hefyd, Ni chymerir agweddau allanol negyddol (e.e. allyriadau nwyon tŷ gwydr ac effeithiau anfanteisiol o daflu ysbwriel) yn llawn ym mhenderfyniadau cynhyrchwyr a defnyddwyr deunydd pacio. Mae problemau eraill yn cynnwys pryderon rhanddeiliaid ynghylch tryloywder y system; cymorth ariannol uniongyrchol cyfyngedig i awdurdodau lleol (ALlau) sy'n rheoli gwastraff pacio a bod y ffaith y gellir ailgylchu yn rhatach dramor wedi arwain at ddiffyg chwarae teg i ailbroseswyr domestig. Bydd y problemau hyn yn parhau heb ymyrraeth bellach gan lywodraeth. Mae Llywodraeth y DU ynghyd â'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn cynnig diwygio system cyfrifoldeb cynhyrchwyr deunydd pacio y DU. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddo costau ariannol net llawn rheoli gwastraff deunydd pacio aelwydydd i gynhyrchwyr, sydd yn y sefyllfa orau i ddylanwadu ar ddyluniadau deunydd pacio. Mae hyn yn cyd-fynd â'r egwyddor 'y llygrydd sy'n talu. Mae angen diwygio hefyd oherwydd i'r fframwaith presennol gael ei gyflwyno cyn datganoli yng Nghymru a'r Alban, gan wneud hwn yn fater datganoledig heb fframwaith deddfwriaethol sy'n adlewyrchu atebolrwydd y Gweinyddiaethau Datganoledig.

**Beth yw amcanion polisi y cam gweithredu neu ymyrraeth a'r effeithiau a fwriedir?**

Yr amcan yw diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol a chyflwyno 'cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig' ar gyfer deunydd pacio aelwydydd. Bydd hyn yn helpu i gyflawni ymrwymiadau a wnaed gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig mewn gwahanol ddogfennau polisi i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o adnoddau a sicrhau cyn lleied o wastraff â phosibl drwy'r defnydd cylchol o ddeunyddiau ac i gymell cynhyrchwyr yn well i reoli adnoddau yn fwy effeithlon. Mae hyn yn cynnwys neilltuo cyfrifoldeb i fusnesau am effaith amgylcheddol eu cynhyrchion ac am gostau rheoli cynhyrchion ar ddiwedd eu hoes (h.y. cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig). Dylai'r rheoliadau newydd gymell y gallu i ailgylchu ac ailddefnyddio deunydd pacio trwy wobrwyo/cosbi cynhyrchwyr yn unol â meini prawf penodedig. Dylai'r ffioedd sy'n cael eu talu gan gynhyrchwyr ariannu casglu gwell a mwy cyson o wastraff pacio, ar gyfer ei ailgylchu, ac yn ei dro annog mwy o ailgylchu ac ailbrosesu domestig a sicrhau arbedion system cyffredinol. Bydd taliadau i ALlau yn cymryd tegwch ac ystyriaethau rhanbarthol i ystyriaeth trwy edrych ar natur wledig a lefel amddifadedd a disgwyliadau perfformiad. Dylai defnyddwyr ei chael yn haws ailgylchu deunydd pacio oherwydd labelu eglur, a bydd mesurau yn gysylltiedig â chyflwyno tystiolaeth yn ymwneud ag allforio gwastraff pacio i'w ailgylchu yn cael eu tynhau.

**Pa opsiynau polisi sydd wedi cael eu hystyried, gan gynnwys unrhyw opsiynau yn hytrach na rheoleiddio? Rhowch gyfiawnhad dros yr opsiwn a ffefrir (manylion pellach yn y Sail Dystiolaeth)**
Rydym yn cyflwyno dau opsiwn yn adlewyrchu'r penderfyniadau polisi terfynol ar ôl ymgynghori:

**Llinell sylfaen – Gwneud Dim** – Peidio â diwygio'r rheoliadau deunydd pacio ond gweithredu'r newidiadau i gasgliadau ailgylchu cynghorau yn Lloegr fel y nodir yn yr AE Casgliadau Ailgylchu Cyngor Cyson a chyflwyno'r Cynlluniau Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
**Opsiwn 1** - Diwygio'r system cyfrifoldeb cynhyrchwyr deunydd pacio fel bod cynhyrchwyr yn talu cost net lawn casglu a thriniaeth diwedd oes deunydd pacio o aelwydydd (gwastraff pacio carreg y drws, canolfannau ailgylchu gwastraff aelwydydd ac a roddwyd yn y bin). Cyflwyno ffioedd wedi'u modiwleiddio ar ddeunydd pacio a labelu ailgylchu gorfodol ar ddeunydd pacio. Tybir bod y rhain yn cymell yr ymddygiadau cywir gan gynhyrchwyr a defnyddwyr sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r amcanion polisi.
**Opsiwn 2** - Fel opsiwn 1, gyda chasgliadau gorfodol o gwpanau cyfansawdd seiliedig ar ffeibr (untro) ar gyfer ailgylchu, gofynion adrodd ychwanegol, a thargedau ailgylchu ar gyfer deunydd pacio cyfansawdd seiliedig ar ffeibr. Yr opsiwn hwn yw ein hopsiwn a ffefrir.

Ni werthuswyd opsiwn heb reoleiddio. Mae dull rheoleiddio wedi bod ar waith ers 1997 ac mae'r Llywodraeth yn bwriadu diwygio hwn ac ymestyn yr egwyddor mae'r llygrydd yn talu fel bod cynhyrchwyr deunydd pacio yn gyfrifol am gost net lawn rheoli gwastraff ar gyfer y gwaith rheoli gwastraff o ran y deunydd pacio aelwydydd y maent yn ei roi ar y farchnad. Mae hyn yn gofyn am ddull rheoleiddio.

Mae mentrau gwirfoddol ar gyfer labeli ailgylchu ac ailgylchu cwpanau cyfansawdd seiliedig ar ffeibr yn bodoli ond maent yn annigonol. Mae amrywiadau o ran dyluniad a gwybodaeth a ddarperir gan labeli gwirfoddol yn ddryslyd i ddefnyddwyr ac mae angen eu safoni. Mae cynlluniau casglu cwpanau cyfansawdd seiliedig ar ffeibr wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran cynyddu cyfradd ailgylchu cwpanau cyfansawdd seiliedig ar ffeibr, ond mae'r gyfradd ailgylchu yn dal i fod yn isel. Bydd rheoleiddio yn cyflwyno cyfrifoldeb ar bob busnes sydd wedi'i rwymo sy'n gwerthu cwpanau cyfansawdd seiliedig ar ffeibr i gasglu ac ailgylchu'r deunydd pacio hwn sy'n cael ei ailgylchu yn wael.

**A fydd y polisi yn cael ei adolygu?** Bydd yn cael ei adolygu. **Os yw'n berthnasol, nodwch y dyddiad adolygu:** Ebrill 2029

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A yw'r mesur hwn yn debygol o effeithio ar fasnach a buddsoddiad rhyngwladol? | Ydy | | | |
| A yw unrhyw rai o'r sefydliadau hyn yn rhan o'r cwmpas? | **Micro** Ydyn | **Bach** Ydyn | **Canolig** Ydyn | **Mawr** Ydyn |
| Beth yw'r newid sy'n cyfateb i $CO_2$ i allyriadau nwyon tŷ gwydr? (Yn cyfateb i filiwn tunnell o $CO_2$) | **2.2MT** | | | |

***Rwyf i wedi darllen yr Asesiad Effaith ac rwy'n fodlon, o ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, ei fod yn cynrychioli safbwynt rhesymol ar gostau, manteision ac effaith tebygol yr opsiynau arweiniol.***

Llofnodwyd gan y DEWIS LLOFNODWR: cyfrifol ______________________ Dyddiad: ______________________

# Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth

**Opsiwn Polisi 1: Adfer cost net lawn gwastraff deunydd pacio aelwydydd, gyda ffioedd wedi'u modiwleiddio a gofynion labelu newydd**

| Blwyddyn Sylfaen Pris 2019 | Blwyddyn Sylfaen Gwerth Presennol 2020 | Cyfnod Amser 10 Mlynedd | Budd Net (Gwerth Presennol) (£m) | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Isaf: -2509.5 | Uchaf: 2198.5 | Amcangyfrif Gorau: 12.0 |

| COSTAU (£m) | Cyfanswm Pontio (Pris Cyson) | Blynyddoedd | Cyfartalog Blynyddol (ac eithrio Pontio) (Pris Cyson) | Cyfanswm Cost (Gwerth Presennol) |
|---|---|---|---|---|
| Isaf | 86.9 | | 1075.9 | 9342.1 |
| Uchaf | 112.8 | | 1365.5 | 11866.0 |
| Amcangyfrif Gorau | 99.6 | | 1198.7 | 10414.9 |

**Disgrifiad a maint costau â gwerth ariannol allweddol yn ôl 'prif grwpiau a effeithir' (pob cost wedi'i gostwng) ac ar gyfer y cyfnod gwerthuso 10 mlynedd**

Bydd y cynhyrchwyr yn gyfrifol am gost net lawn casgliadau gwastraff deunydd pacio aelwydydd (£9,573 miliwn), costau gweinyddol a rheoleiddio (£441 miliwn) a byddant yn cael eu gorfodi i labelu deunydd pacio yn seiliedig ar allu i ailgylchu (£78 miliwn); bydd cyfleusterau deunyddiau yn wynebu costau samplu a chyfansoddiadol ychwanegol (£184 miliwn); bydd ailbroseswyr ac allforwyr yn wynebu costau adrodd ychwanegol (£6 miliwn); bydd y sector cyhoeddus yn wynebu colled o refeniw treth tirlenwi (£70 miliwn) a chostau buddsoddiad TG (£11 miliwn).

**Costau heb werth ariannol allweddol eraill yn ôl 'prif grwpiau a effeithir'**

Ni ystyrir trosglwyddiad costau posibl o gynhyrchwyr i ddefnyddwyr yn y dadansoddiad cost a budd, ond yn hytrach yn yr adran effeithiau ehangach (caiff y costau hyn eu priodoli i fusnesau yn y dadansoddiad cost a budd).

| BUDDION (£m) | Cyfanswm Pontio (Pris Cyson) | Blynyddoedd | Cyfartalog Blynyddol (ac eithrio Pontio) (Pris Cyson) | Cyfanswm Cost (Gwerth Presennol) |
|---|---|---|---|---|
| Isaf | 0.0 | | 1089.8 | 9356.5 |
| Uchaf | 0.0 | | 1346.0 | 11540.6 |
| Amcangyfrif Gorau | 0.0 | | 1215.3 | 10426.9 |

**Disgrifiad a maint costau â gwerth ariannol allweddol yn ôl 'prif grwpiau a effeithir' (pob cost wedi'i gostwng)**

Mae ALlau yn elwa (£9,573 miliwn) o drosglwyddiad costau ar gyfer casglu, didoli, trin a gwaredu gwastraff pacio i gynhyrchwyr; elw gwerthiannau deunydd ychwanegol gan y diwydiant ailbrosesu ac ailgylchu (£105 miliwn); osgoi costau gwared gweddilliol o arallgyfeirio gwastraff parcio o driniaeth losgi a thirlenwi i ailgylchu, gan gynnwys arbedion treth tirlenwi (£281 miliwn); osgoi allyriadau nwyon tŷ gwydr o arallgyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi a llosgi i ailgylchu (£440 miliwn).

**Costau heb werth ariannol allweddol eraill yn ôl 'prif grwpiau a effeithir'**

Gallai'r farchnad ailbrosesu ddomestig elwa gan fod mwy o ddeunydd yn cael ei ailgylchu. Efallai y bydd buddion cyfalaf niwtral o lai o ddibyniaeth ar ddeunyddiau digyffwrdd a gostyngiad i faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi a llosgi. Ceir budd i ddefnyddwyr hefyd o labeli mwy eglur ar ddeunydd pacio a chyfathrebu mwy eglur o ran sut i ailgylchu a chael gwared ar wastraff pacio ochr yn ochr â gwell gwasanaethau casglu deunydd ailgylchu yn ei gwneud yn haws iddynt ailgylchu. Ceir sawl budd system gyfan hefyd gan gynnwys mwy o dryloywder yn y system.

| Tybiaethau/agweddau sensitif/risgiau allweddol | Cyfradd ostyngol (%) | 3.5% |
|---|---|---|

Gallai cyfanswm deunydd pacio a roddwyd ar y farchnad fod yn uwch na'r hyn a amcangyfrifir ar hyn o bryd, gan effeithio ar gyfraddau ailgylchu a chostau sectoraidd. Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd gennym ar sgil-gynhyrchion gwastraff pacio cyngor nad yw'n gysylltiedig ag aelwydydd. Tybir bod prisiau deunyddiau (gan gynnwys prisiau deunydd wedi'u hailbrosesu a'u hadfer) yn ogystal â ffioedd clwyd tirlenwi yn gyson. Mae'r dadansoddiad yn sensitif i dwf deunydd pacio a roddwyd ar y farchnad, y dybiaeth sylfaenol bod cysondeb a'r cynllun dychwelyd ernes ar waith, y rhaniad deunydd a roddwyd ar y farchnad rhwng deunydd pacio aelwydydd, deunydd pacio cyngor nad yw'n gysylltiedig ag aelwydydd neu debyg i aelwydydd a deunydd pacio masnachol a diwydiannol; a'r tybiaethau prisiau carbon a ddarparwyd gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

**ASESIAD BUSNES (Opsiwn 1)**

<table>
<tr><td colspan="3">Effaith uniongyrchol ar fusnes (Blynyddol Cyfatebol) £m:</td><td>Sgôr ar gyfer Targed Effaith Busnes (darpariaethau cymwys yn unig) £m:</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Costau: 1200.6</td><td rowspan="2">Buddion: 0.0</td><td rowspan="2">Net: 1200.6</td><td></td></tr>
<tr><td>6003.0</td></tr>
</table>

**Opsiwn Polisi 2: Adfer cost net lawn gwastraff deunydd pacio aelwydydd, gyda ffioedd wedi'u modiwleiddio a gofynion labelu newydd, yn ogystal â labelu gorfodol a chymryd cyfansoddion seiliedig ar ffeibr yn ôl**

| Blwyddyn Sylfaen Pris 2019 | Blwyddyn Sylfaen Gwerth Presennol 2020 | Cyfnod Amser 10 Mlynedd | Budd Net (Gwerth Presennol) (£m) | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Isaf: -2549.0 | Uchaf: 2207.7 | Amcangyfrif Gorau: 1.3 |

| COSTAU (£m) | Cyfanswm Pontio (Pris Cyson) | Blynyddoedd | Cyfartalog Blynyddol (ac eithrio Pontio) (Pris Cyson) | Cyfanswm Cost (Gwerth Presennol) |
|---|---|---|---|---|
| Isaf | 93.6 | | 1079.4 | 9377.3 |
| Uchaf | 155.8 | | 1371.6 | 1150.2 |
| Amcangyfrif Gorau | 116.9 | | 1203.1 | 10469.9 |

**Disgrifiad a maint costau â gwerth ariannol allweddol yn ôl 'prif grwpiau a effeithir' (pob cost wedi'i gostwng) ac ar gyfer y cyfnod gwerthuso 10 mlynedd**

Yr un fath ag opsiwn 1, gan gynnwys costau ychwanegol cynllun cymryd yn ôl gorfodol ar gyfer cynhyrchwyr cwpanau cyfansawdd seiliedig ar ffeibr, er mwyn gallu ailgylchu cwpanau. Mae'r costau hyn yn cynnwys: costau a ysgwyddir gan gynhyrchwyr: costau casglu cwpanau, gorfodi a hyfforddi (£20 miliwn), costau bin cwpanau (£17 miliwn).

**Costau heb werth ariannol allweddol eraill yn ôl 'prif grwpiau a effeithir'**

Yr un fath ag opsiwn 1

| BUDDION (£m) | Cyfanswm Pontio (Pris Cyson) | Blynyddoedd | Cyfartalog Blynyddol (ac eithrio Pontio) (Pris Cyson) | Cyfanswm Cost (Gwerth Presennol) |
|---|---|---|---|---|
| Isaf | 0.0 | | 1095.4 | 9401.2 |
| Uchaf | 0.0 | | 1351.5 | 11584.9 |
| Amcangyfrif Gorau | 0.0 | | 1220.9 | 10471.3 |

**Disgrifiad a maint costau â gwerth ariannol allweddol yn ôl 'prif grwpiau a effeithir' (pob cost wedi'i gostwng)**

Yr un fath ag Opsiwn 1, gan ychwanegu gorfodi cymryd cwpanau cyfansawdd seiliedig ar ffeibr yn ôl. Bydd hyn yn arallgyfeirio'r deunydd hwn o safleoedd tirlenwi a llosgi i ailgylchu, gan gynhyrchu arbedion allyriadau nwyon tŷ gwydr a buddion ehangach i'r amgylchedd. Bydd refeniw deunyddiau i ailbroseswyr yn cynyddu gan y bydd mwy o ddeunydd yn cael ei ailbrosesu. Buddion i ailbroseswyr ac ailgylchwyr o'r refeniw deunydd cwpanau (£10 miliwn). Buddion i gynhyrchwyd deunydd pacio sydd wedi'u rhwymo o ran gostyngiad i gostau gwastraff gweddilliol gan y bydd cwpanau sydd wedi'u defnyddio yn cael eu casglu ar gyfer ailgylchu bellach (£14 miliwn). Gostyngiad i gostau glanhau ysbwriel cwpanau a ysgwyddir gan ALlau ar hyn o bryd (£2 filiwn). Buddion cymdeithasol o ran gostwng allyriadau carbon (£19 miliwn).

**Costau heb werth ariannol allweddol eraill yn ôl 'prif grwpiau a effeithir'**

Yr un fath ag opsiwn 1.

| Tybiaethau/agweddau sensitif/risgiau allweddol | Cyfradd ostyngol (%) | 3.5% |
|---|---|---|

Gallai cyfanswm deunydd pacio a roddwyd ar y farchnad fod yn uwch na'r hyn a amcangyfrifir ar hyn o bryd, gan effeithio ar gyfraddau ailgylchu a chostau sectoraidd. Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd gennym ar sgil-gynhyrchion gwastraff pacio cyngor nad yw'n gysylltiedig ag aelwydydd. Tybir bod prisiau deunyddiau (gan gynnwys prisiau wedi'u hailbrosesu a'u hadfer) yn ogystal â ffioedd clwyd tirlenwi yn gyson. Mae'r dadansoddiad yn sensitif i dwf deunydd pacio a roddwyd ar y farchnad, y dybiaeth sylfaenol bod cysondeb a'r cynllun dychwelyd ernes ar waith, y rhaniad deunydd a roddwyd ar y farchnad rhwng deunydd pacio aelwydydd, deunydd pacio cyngor nad yw'n gysylltiedig ag aelwydydd neu debyg i aelwydydd a deunydd pacio masnachol a diwydiannol; a'r tybiaethau prisiau carbon a ddarparwyd gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

**ASESIAD BUSNES (Opsiwn 2)**

| Effaith uniongyrchol ar fusnes (Blynyddol Cyfatebol) £m: | | | Sgôr ar gyfer Targed Effaith Busnes (darpariaethau cymwys yn unig) £m: |
|---|---|---|---|
| Costau: 1206.8 | Buddion: 0.0 | Net: 1206.8 | 6034.0 |

## CYFLWYNIAD A CHRYNODEB O'R DYSTIOLAETH

### *Cyflwyniad*

Dyma'r asesiad effaith terfynol ar gyfer diwygio'r rheoliadau cyfrifoldeb cynhyrchwyr deunydd pacio[1] ac mae'n dilyn yr asesiadau effaith ymgynghori blaenorol yn 2021[2] a 2019[3]. Diweddarwyd y dadansoddiad o'r asesiadau effaith blaenorol i adlewyrchu penderfyniadau polisi terfynol a chasglwyd tystiolaeth bellach drwy'r broses ymgynghori. Mae'r asesiad effaith hwn yn ategu ymateb y llywodraeth i ymgynghoriad cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig 2021, sy'n cynnig dadansoddiad o adborth o'r ymgynghoriadau yn ogystal â manylion pellach ar benderfyniadau polisi terfynol.

### *Y system bresennol a diwygiadau*

O dan y rheoliadau presennol, mae'n ofynnol i gynhyrchwyr deunydd pacio sydd wedi'u rhwymo[4] gofrestru gyda'r rheoleiddiwr, adrodd data ar gyfanswm y deunydd pacio a roddwyd ar y farchnad ganddynt a bodloni targedau ailgylchu blynyddol. I wneud hyn, mae'n rhaid i gynhyrchwyr brynu tystiolaeth ailgylchu o'r enw Hysbysiadau Adfer Gwastraff Deunydd Pacio neu Hysbysiadau Adfer Allforion Gwastraff Deunydd Pacio, sy'n cyfateb i'w rhwymedigaeth ailgylchu. Gall y dystiolaeth hon gael ei chyflenwi gan ailbroseswyr ac allforwyr deunydd pacio i'w ailgylchu yn seiliedig ar faint o ddeunydd pacio y maent yn ei ailgylchu. System seiliedig ar y farchnad yw hon, fel bod pris tystiolaeth yn codi a gostwng yn seiliedig ar rymoedd y farchnad[5]. Bwriedir i'r system hon gymell y diwydiant i gynyddu ailgylchu deunydd pacio i fodloni targedau ailgylchu a bennwyd gan lywodraeth ac mae'n arwain at gynhyrchwyr yn talu costau rhannol ymdrin â gwastraff pacio.

Bydd y diwygiadau a amlinellir yn yr asesiad effaith hwn yn golygu y bydd cynhyrchwyr deunydd pacio sydd wedi'u rhwymo yn talu Cost Net Lawn[6] casglu a rheoli deunydd pacio a gesglir o aelwydydd trwy systemau effeithlon ac effeithiol o dan gynllun cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig. Mae hyn yn cynnwys cyfran y costau casglu gwastraff gweddilliol ac ailgylchu aelwydydd o garreg y drws a briodolir i wastraff pacio, yn ogystal â chost rheoli deunydd pacio trwy Ganolfannau Gwastraff ac Ailgylchu Aelwydydd a safleoedd dod â gwastraff. Bydd hefyd yn ofynnol i gynhyrchwyr wneud taliadau i fodloni costau rheoli deunydd pacio a roddwyd mewn biniau. Bydd costau a delir gan gynhyrchwyr yn seiliedig ar ffioedd wedi'u modiwleiddio, fel y bydd cynhyrchwyr sy'n rhoi deunydd pacio ar y farchnad sy'n ddrytach i'w ailgylchu, neu'n sy'n cael mwy o effaith ar yr amgylchedd, yn wynebu ffioedd uwch. Ar y cyfan, disgwylir i hyn gymell cynhyrchwyr i leihau deunydd pacio diangen, i newid i ddeunydd pacio y gellir ai ailgylchu yn haws a chynyddu'r gallu i ailgylchu'r deunydd pacio y maent yn ei roi ar y farchnad.

Yn yr ymgynghoriad, nododd y Llywodraeth opsiynau hefyd ar gyfer cyflwyno taliadau Cost Net Lawn ar gyfer deunydd pacio penodol a gesglir i'w ailgylchu o fusnesau. Er bod cefnogaeth gref i'r egwyddorion sy'n sail i'r cynnig

---

[1] Gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion.

[2] https://consult.defra.gov.uk/extended-producer-responsibility/consultation-on-reforming-the-uk-packaging-produce/supporting_documents/packagingeprconsultimpactassessment.pdf

[3] https://consult.defra.gov.uk/extended-producer-responsibility/extended-producer-responsibility-for-packaging/supporting_documents/Extended%20Producer%20Responsibility%20Impact%20Assessment.pdf

[4] Mae pwynt cydymffurfiad cyffredin yn bodoli, lle mae gan gynhyrchwyr ar wahanol gamau o'r gadwyn gyflenwi rwymedigaeth gyffredin. Y prif gategorïau cynhyrchwyr sydd wedi'u rhwymo yw gweithgynhyrchwyr deunyddiau crai, newid deunydd pacio, pacwyr/llenwyr a gwerthwyr. Mae mewnforwyr deunydd pacio a darparwyr gwasanaeth wedi'u rhwymo hefyd.

[5] Gweler Atodiad F am fanylion prisiau hanesyddol.

[6] Net o unrhyw refeniw o werthu deunydd pacio eildro i ailbroseswyr ac allforwyr.

hwn, ac i lawer o'r dulliau arfaethedig a nodwyd yn yr ymgynghoriad, roedd llai o gytundeb ynghylch dull talu ymarferol ar gyfer gwastraff pacio busnesau. Ni chafodd yr un o'r opsiynau arfaethedig yn ymgynghoriad 2021 gefnogaeth fwyafrifol, ac roedd 63% o'r ymatebwyr yn anghytuno yn gryf ag un neu fwy o'r opsiynau a gynigiwyd. Roedd y gwrthwynebiadau hyn yn ymwneud â chymhlethdod a gwerth am arian cyflwyno dull talu newydd, o gofio bod sectorau sydd wedi'u rhwymo eisoes yn ysgwyddo lawer o'r gost hon, a'r potensial ar gyfer twyll. Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu blaenoriaethu cyflwyno taliadau cost net lawn i gwmpasu deunydd pacio aelwydydd cyn gynted â phosibl, gan archwilio ymhellach opsiynau i ymestyn taliadau cost net lawn i ddeunydd pacio a gesglir gan fusnesau.

O dan y system ddiwygiedig, bydd angen i gynhyrchwyr ddarparu tystiolaeth o hyd o fodloni eu rhwymedigaethau ailgylchu ar gyfer pob deunydd pacio. I hwyluso hyn, fel mesur dros dro, bydd cynhyrchwyr yn parhau i brynu tystiolaeth ailgylchu (Hysbysiadau Adfer Deunydd Pacio/Hysbysiadau Adfer Allforion Deunydd Pacio) ar bob deunydd pacio. Pan fydd cynhyrchwyr wedi'u rhwymo i wneud taliadau i dalu cost net lawn eu deunydd pacio aelwydydd ac a roddwyd yn y bin, bydd yn ofynnol iddynt wneud taliad ychwanegol i ddod â'u cyfraniad ar gyfer rheoli deunydd pacio aelwydydd ac a roddwyd yn y bin i gost net lawn[7]. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymgynghoriad ymhellach gyda rhanddeiliaid i ganfod eu safbwyntiau ar y ffordd orau o gynyddu effeithlonrwydd y system Hysbysiadau Adfer Deunydd Pacio/Hysbysiadau Adfer Allforion Deunydd Pacio, fel ei gwneud yn ofynnol i adrodd data yn fwy rheolaidd a swyddogaeth fwy gweithredol i Gynlluniau Cydymffurfiad, gyda'r disgwyliad y bydd newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r system yn barod ar gyfer y diwygiadau yn yr AE hwn.

Yn ogystal â chyflwyno taliadau i gwmpasu deunydd pacio aelwydydd ac a roddwyd yn y bin, bydd y diwygiadau yn cynnwys cyflwyno labelu gorfodol ar ddeunydd pacio i gyfathrebu'r gallu i ailgylchu'r deunydd pacio. Hefyd, bydd mesurau penodol i gynyddu ailgylchu deunydd pacio cyfansawdd yn seiliedig ar ffeibr[8]. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno Cynllun Cymryd yn Ôl gorfodol i werthwyr cwpanau cyfansawdd sy'n seiliedig ar ffeibr, lle mae'n rhaid i werthwyr ddarparu biniau i gasglu'r deunydd pacio hwn a'i ailgylchu. Bydd hefyd yn ofynnol i gynhyrchwyr adrodd data ar y deunydd pacio cyfansawdd seiliedig ar ffeibr a roddir ar y farchnad, a bydd targed ailgylchu cyfansawdd seiliedig ar ffeibr penodol yn cael ei gyflwyno i gael ei fodloni gan gynhyrchwyr sydd wedi'u rhwymo.

I alluogi'r diwygiadau hyn, bydd gofynion data ychwanegol yn cael eu cyflwyno ar y gadwyn gyflenwi gwastraff pacio, gan gynnwys Cyfleusterau Deunyddiau yn ogystal ag ailbroseswyr ac allforwyr deunydd pacio i'w ailgylchu.

### *Crynodeb o'r effeithiau ar y gadwyn gyflenwi*

Mae'r adran hon yn crynhoi'r cyfrifoldebau a'r effeithiau ar fusnesau o bob rhan o'r gadwyn gyflenwi deunydd pacio o ganlyniad i'r diwygiadau.

**Cynhyrchwyr Deunydd Pacio**

Bydd yn dal yn ofynnol i gynhyrchwyr deunydd pacio sydd wedi'u rhwymo brynu tystiolaeth i fodloni eu rhwymedigaethau ailgylchu ar bob deunydd pacio. Bydd cynhyrchwyr sy'n trin deunydd pacio sy'n debygol o gael ei gasglu o aelwydydd wedi'u rhwymo wedyn i wneud taliad ychwanegol i fodloni cost net lawn rheoli deunydd pacio aelwydydd ac a roddir yn y bin. Mae'r costau hyn yn cynnwys:

- Costau casglu a rheoli deunyddiau pacio i'w hailgylchu heb y refeniw a dderbyniwyd o werthu'r deunyddiau hyn. Mae hyn yn ogystal â'r gost o gasglu a chael gwared ar ddeunydd pacio yn y ffrwd gwastraff gweddilliol

[7] Gweler Atodiad F am ragor o wybodaeth am sut y bydd hyn yn gweithio.

[8] Deunydd pacio sy'n seiliedig ar ffeibr yn bennaf (wedi'i wneud o gerdyn, er enghraifft) ond sy'n cynnwys deunyddiau eraill (leinin plastig fel rheol).

- Costau casglu a rheoli deunydd pacio sy'n cael ei adael gan bobl o aelwydydd mewn Canolfannau Gwastraff ac Ailgylchu Aelwydydd a safleoedd dod â gwastraff
- Cost casglu a rheoli gwastraff pacio a roddwyd yn y bin

Bydd cynhyrchwyr hefyd yn wynebu costau yn gysylltiedig â labelu gorfodol, lle mae'n rhaid i ddeunydd pacio gynnwys label yn dynodi a ellir ei ailgylchu ai peidio. Hefyd, bydd cynhyrchwyr sy'n gymwys ar gyfer costau rheoli deunydd pacio o aelwydydd yn ysgwyddo'r gost o weinyddu'r cynllun cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig, bydd pob cynhyrchydd yn talu ffioedd/taliadau y rheoleiddiwr a bydd cynhyrchwyr sy'n dewis ymuno â Chynllun Cydymffurfio yn talu ffioedd/taliadau i'r cynlluniau hyn.

Bydd arbedion i gynhyrchwyr, o gymharu â'r llinell sylfaen, ar eu taliadau cost net lawn tuag at gostau casglu a rheoli deunydd pacio aelwydydd wrth i fwy o wastraff pacio gael ei ailgylchu yn hytrach na chael ei anfon i safleoedd gwastraff gweddilliol.

**Gwerthwyr Cwpanau Cyfansawdd Seiliedig ar Ffeibr wedi'u Llenwi**

Bydd yn ofynnol i werthwyr cwpanau cyfansawdd seiliedig ar ffeibr wedi'u llenwi gyflwyno Cynllun Cymryd yn Ôl Gorfodol a darparu biniau ar gyfer casglu ac ailgylchu'r cwpanau hyn. Bydd hefyd yn ofynnol iddynt adrodd y tunelledd a gesglir ac a ailgylchir i'r rheoleiddiwr. Bydd targedau ailgylchu yn cael eu cyflwyno hefyd ar gyfer deunydd pacio cyfansawdd seiliedig ar ffeibr i'w bodloni gan gynhyrchwyr.

**Y Sector Cyhoeddus**

Bydd enillion i'r sector cyhoeddus wrth i gynhyrchwyr wneud taliadau i awdurdodau lleol i dalu am gasgliadau deunydd pacio aelwydydd a thriniaeth diwedd oes yn ogystal â chostau gwastraff deunydd pacio a roddir yn y bin. Mae hwn yn trosglwyddo costau o'r sector cyhoeddus i gynhyrchwyr deunydd pacio.

Bydd y sector cyhoeddus yn wynebu costau ychwanegol yn ymwneud â chostau sefydlu, gan gynnwys costau sefydlu system TG. Bydd gostyngiadau hefyd i dreth tirlenwi wrth i fwy o ddeunydd pacio gael ei arallgyfeirio o gasgliadau gwastraff gweddilliol i ailgylchu. Mae hwn yn drosglwyddiad o Drysorlys Ei Mawrhydi i awdurdodau lleol (a chynhyrchwyr deunydd pacio yn y pen draw), busnesau sy'n cael gwared ar wastraff pacio a gwerthwyr cwpanau cyfansawdd seiliedig ar ffeibr.

Ar y cyfan, bydd y sector cyhoeddus yn gweld enillion net o'r diwygiadau.

**Busnesau sy'n Cael Gwared ar Wastraff Pacio**

Bydd busnesau sy'n cael gwared ar wastraff pacio tebyg i wastraff aelwydydd yn gweld arbedion o arallgyfeirio gwastraff gweddilliol pacio o safleoedd gweddilliol i ailgylchu o ganlyniad i labelu gorfodol, a fydd yn arwain at labelu deunydd pacio yn fwy eglur fel deunydd y gellir ei ailgylchu neu beidio a bydd hyn yn ei dro yn arwain at fwy o ailgylchu gan aelwydydd a busnesau.

**Cyfleusterau Deunyddiau**

Yn aml, cyfleusterau deunyddiau fel Cyfleusterau Adfer Deunyddiau a Gorsafoedd Trosglwyddo yw cyrchfan gyntaf deunydd pacio a gesglir i'w ailgylchu o aelwydydd a busnesau. Yma, caiff deunydd eildro ei grynhoi a/neu ei ddidoli i gael ei anfon i gyfleuster deunyddiau arall neu i ailgylchydd. Bydd gofynion ychwanegol i gefnogi cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig yn cael eu cyflwyno ar y cyfleusterau hyn i ddarparu data samplu a chyfansoddiadol u deunydd pacio y maent yn ei dderbyn a'i ddidoli. Bydd hyn yn arwain at gostau uwch i gyfleusterau deunyddiau. I ysgwyddo'r costau hyn, gall cyfleusterau o fewn y cwmpas gynyddu'r ffioedd y maent yn eu codi am eu gwasanaethau. Byddai'r costau hyn felly yn cronni i awdurdodau lleol a busnesau sy'n casglu deunyddiau ar gyfer eu hailgylchu.

**Ailbroseswyr ac allforwyr deunydd pacio i'w ailgylchu**

Bydd ailbroseswyr deunydd pacio, yn ogystal ag allforwyr deunydd pacio i'w ailgylchu, yn mynd i gostau ychwanegol oherwydd gofynion adrodd data cynyddol.

Fodd bynnag, bydd ailbroseswyr yn ennill trwy fwy o elw o werthu deunydd pacio wedi'i ailbrosesu fel mewnbwn ar gyfer cynhyrchion newydd a deunydd pacio ar y farchnad deunyddiau eilaidd. Mae hyn oherwydd y cyflenwad cynyddol o ddeunydd pacio ar gyfer ei ailgylchu oherwydd cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig. Er nad yw'n fudd ychwanegol, bydd y busnesau hyn hefyd yn cadw incwm Hysbysiadau Adfer Deunydd Pacio/Hysbysiadau Adfer Allforion Deunydd Pacio.

**Cymdeithas**

Mae mwy o ailgylchu deunydd pacio yn cynhyrchu deunyddiau eilaidd i'w defnyddio ar gyfer gweithgynhyrchu (e.e. deunydd pacio newydd). Mae hyn yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig ag echdynnu deunydd craidd, gweithgynhyrchu deunydd pacio a rheoli gwastraff. Mae ailgylchu deunyddiau pacio yn llai drud ar garbon nag opsiynau trin gwastraff pacio eraill yn gyffredinol. Bydd cymdeithas yn ennill trwy lai o allyriadau carbon felly.

### *Crynodeb o'r dystiolaeth*

Nodir crynodeb o gostau a buddion y diwygio isod.

| *Gwerth Presennol (2024-33) £m* | **Effaith ar Fusnes** | **Uniongyrchol/ Anuniongyrchol** | **Opsiwn 1** | **Opsiwn 2** |
|---|---|---|---|---|
| **Costau Pontio** | | | | |
| Cynhyrchydd – Pontio Labelu | Oes | Uniongyrchol | £89.4 | £89.4 |
| Cynhyrchydd – Ymgyfarwyddo â'r Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig | Oes | Uniongyrchol | £2.5 | £2.5 |
| Cynhyrchydd – Pontio Cymryd Ffeibr yn Ôl Gorfodol | Oes | Uniongyrchol | | £19.9 |
| Cyfleuster Deunyddiau – Cyfalaf ac Ymgyfarwyddo | Oes | Uniongyrchol | £7.5 | £7.5 |
| Ailbrosesydd/Allforiwr – Ymgyfarwyddo | Oes | Uniongyrchol | £0.6 | £0.6 |
| Sector Cyhoeddus – Buddsoddiad TG | Nac oes | | £12.4 | £12.4 |
| **Costau** | | | | |
| Cynhyrchydd - Cost Net Lawn Casgliadau Deunydd Pacio Aelwydydd (casgliadau carreg y drws) - Trosglwyddo | Oes | Uniongyrchol | £9,771.2 | £9,771.2 |
| Cynhyrchydd – Cost Net Lawn Casgliadau Deunydd Pacio Aelwydydd (Canolfannau Gwastraff ac Ailgylchu Aelwydydd) – Trosglwyddo | Oes | Uniongyrchol | £370.4 | £370.4 |
| Cynhyrchydd - Cost Net Lawn Casgliadau Deunydd Pacio Aelwydydd (Gwastraff Pacio a | Oes | Uniongyrchol | £843.6 | £843.6 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Roddwyd yn y Bin) – Trosglwyddo | | | | |
| Cynhyrchydd – Gweinyddwr Cynllun (gan gynnwys TG) | Oes | Uniongyrchol | £156.0 | £156.0 |
| Cynhyrchydd – Cynllun Cydymffurfiad | Oes | Uniongyrchol | £121.9 | £121.9 |
| Cynhyrchydd - Rheoleiddiwr | Oes | Uniongyrchol | £77.0 | £77.0 |
| Cynhyrchydd – Ymgyrchoedd Cyfathrebu SA | Oes | Uniongyrchol | £150.7 | £150.7 |
| Cynhyrchydd – Labelu Parhaus | Oes | Uniongyrchol | £58.7 | £58.7 |
| Cynhyrchydd – Cymryd Ffeibr yn Ôl Gorfodol (Gorfodi) | Oes | Uniongyrchol | | £6.2 |
| Cynhyrchydd - Cymryd Ffeibr yn Ôl Gorfodol (Hyfforddiant) | Oes | Uniongyrchol | | £17.4 |
| Cynhyrchydd - Cymryd Ffeibr yn Ôl Gorfodol (Costau casglu net) | Oes | Uniongyrchol | | £17.7 |
| Cyfleuster Deunyddiau – Costau Gweithredu | Oes | Uniongyrchol | £191.2 | £191.2 |
| Cyfleuster Deunyddiau - Rheoleiddiwr | Oes | Uniongyrchol | £12.5 | £12.5 |
| Ailbrosesydd/Allforiwr – Rheoleiddiwr | Oes | Uniongyrchol | £0.2 | £0.2 |
| Ailbrosesydd/Allforiwr – Data Ychwanegol | Oes | Uniongyrchol | £5.5 | £5.5 |
| Sector Cyhoeddus – Colled Treth Tirlenwi – Trosglwyddo | Nac oes | | £80.0 | £81.9 |
| **Buddion** | | | | |
| Cymdeithas – Arbedion Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr | Nac oes | | £505.0 | £526.3 |
| Cynhyrchydd – Arbedion Costau Casglu Net | Oes | Anuniongyrchol | £322.2 | £322.2 |
| Cynhyrchydd – Arbedion gweddilliol ffeibr | Oes | Anuniongyrchol | | £16.4 |
| Cynhyrchydd – Arbedion ysbwriel ffeibr | Nac oes | | | £2.0 |
| Busnesau - Arbedion Gwastraff Busnes Tebyg i Aelwydydd Net | Oes | Anuniongyrchol | £32.4 | £32.4 |
| Ailbrosesydd – Marchnad Deunyddiau Eilaidd | Oes | Anuniongyrchol | £120.3 | £131.4 |
| Sector Cyhoeddus – Casgliadau Deunydd Pacio Aelwydydd (Carreg y Drws, Canolfannau Gwastraff ac Ailgylchu Aelwydydd, Ysbwriel) – Trosglwyddo | Nac oes | | £10,985.2 | £10,985.2 |
| **Cyfanswm Costau** | | | £11,951.36 | £12,014.48 |
| **Cyfanswm Buddion** | | | £11,965.12 | £12,016.01 |

| **Gwerth Presennol Net** | | | 13.8 | 1.5 |
|---|---|---|---|---|

Mae'r tabl isod yn dangos y cyfraddau ailgylchu ar gyfer deunydd pacio yng nghwmpas y cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig o dan y llinell sylfaen a'r ddau opsiwn yn 2033. Fel y bydd yn cael ei ddangos yn yr adran dystiolaeth, disgwylir i gyfraddau ailgylchu deunydd pacio'r cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig gynyddu 4% uwchben y llinell sylfaen yn y ddau opsiwn. O dan opsiwn 2, rydym yn amcangyfrif y bydd y gyfradd ailgylchu cyfansawdd ffeibr yn cynyddu i 35% uwchben y llinell sylfaen erbyn 2033.

| | **Llinell Sylfaen** | **Opsiwn 1** | **Opsiwn 2** |
|---|---|---|---|
| **Plastig** | 58% | 63% | 63% |
| **Pren** | 37% | 37% | 37% |
| **Alwminiwm** | 47% | 48% | 48% |
| **Dur** | 82% | 85% | 85% |
| **Papur/Cerdyn** | 88% | 90% | 90% |
| **Gwydr** | 77% | 84% | 84% |
| **Cyfansawdd seiliedig ar ffeibr** | 26% | 38% | 61% |
| **Cyfanswm** | 72% | 76% | 76 |

Amlinellir crynodeb o'r costau a'r buddion busnes uniongyrchol sydd wedi'u cynnwys yn y Gost Uniongyrchol Net Flynyddol Gyfatebol i Fusnes yn y tabl isod.

| *Gwerth Presennol – <u>blwyddyn sylfaenol 2020</u> (2024-33) £m* | **Opsiwn 1** | **Opsiwn 2** |
|---|---|---|
| **Costau Pontio** | | |
| Cynhyrchydd – Pontio Labelu | £77.9 | £77.9 |
| Cynhyrchydd – Ymgyfarwyddo a'r Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig | £2.2 | £2.2 |
| Cynhyrchydd – Pontio Cymryd Ffeibr yn Ôl Gorfodol | | £17.3 |
| Cyfleuster Deunyddiau – Cyfalaf ac Ymgyfarwyddo | £6.5 | £6.5 |
| Ailbrosesydd/Allforiwr - Ymgyfarwyddo | £0.5 | £0.5 |
| **Costau** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Cynhyrchydd - Cost Net Lawn Casgliadau Deunydd Pacio Aelwydydd (casgliadau carreg y drws) - Trosglwyddo | £8,515.0 | £8,515.0 |
| Cynhyrchydd – Cost Net Lawn Casgliadau Deunydd Pacio Aelwydydd (Canolfannau Gwastraff ac Ailgylchu Aelwydydd) – Trosglwyddo | £322.8 | £322.8 |
| Cynhyrchydd - Cost Net Lawn Casgliadau Deunydd Pacio Aelwydydd (Gwastraff Pacio a Roddwyd yn y Bin) – Trosglwyddo | £735.2 | £735.2 |
| Cynhyrchydd – Gweinyddwr Cynllun (gan gynnwys TG) | £135.9 | £135.9 |
| Cynhyrchydd – Cynllun Cydymffurfiad | £106.2 | £106.2 |
| Cynhyrchydd - Rheoleiddiwr | £67.1 | £67.1 |
| Cynhyrchydd – Ymgyrchoedd Cyfathrebu SA | £131.3 | £131.3 |
| Cynhyrchydd – Labelu Parhaus | £51.2 | £51.2 |
| Cynhyrchydd – Cymryd Ffeibr yn Ôl Gorfodol (gorfodi) | | £5.4 |
| Cynhyrchydd - Cymryd Ffeibr yn Ôl Gorfodol (hyfforddiant) | | £15.2 |
| Cynhyrchydd - Cymryd Ffeibr yn Ôl Gorfodol (costau casglu net) | | £15.4 |
| Cyfleuster Deunyddiau – Costau Gweithredu | £166.6 | £166.6 |
| Cyfleuster Deunyddiau - Rheoleiddiwr | £10.9 | £10.9 |
| Ailbrosesydd/Allforiwr – Rheoleiddiwr | £0.2 | £0.2 |
| Ailbrosesydd/Allforiwr – Data Ychwanegol | £4.8 | £4.8 |
| **Cyfanswm Costau** | £10,334.4 | £10,387.7 |
| **Cyfanswm Buddion** | £0.0 | £0.0 |
| **Costau Net** | £10,334.35 | £10,387.70 |
| **Cost Uniongyrchol Net Flynyddol Gyfatebol i Fusnes (Blynyddol)** | £1,200.60 | £1,206.79 |